# Swydd Ddisgrifiad

Prifysgol **Wrecsam**
**Wrexham** University

Ein Dyfodol. **Rhagoriaeth.** Cliciwch yma.
Ein Dyfodol. **Cynhwysiad.** Cliciwch yma.
Ein Dyfodol. **Cydweithio.** Cliciwch yma.
Ein Dyfodol. **Trawsnewidiad.** Cliciwch yma.
Ein Dyfodol. **Cynaliadwyedd.** Cliciwch yma.

| | |
|---|---|
| **Cyfadran/Adran** | Campws a Lle |
| **Adran** | Iechyd a Diogelwch |
| **Teitl y Swydd** | Bennaeth Iechyd, Diogelwch a Chydymffurfedd |
| **Yn atebol i** | Cyfarwyddwr Campws a Lle |
| **Yn gyfrifol am** | Rheolwr Diogelwch, Iechyd a'r Amgylchedd |
| **Gradd** | MAN1 |

## Prif Atebolrwydd

Bydd deiliad y swydd yn arwain yn weithredol ac yn goruchwylio'n strategol ar gyfer materion Iechyd a Diogelwch, materion amgylcheddol a materion cynaliadwyedd ar draws y Brifysgol i sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol, cydymffurfedd â rhwymedigaethau statudol, rheoli digwyddiadau, cynllunio gwydnwch a chyflawni diwylliant diogelwch a chynaliadwyedd cadarnhaol ar draws holl weithgarwch y Brifysgol.

Bydd deiliad y swydd yn arwain ar ddatblygu, gweithredu a gwella Iechyd a Diogelwch, strategaethau amgylcheddol a chynaliadwyedd, polisïau, systemau rheoli a fframwaith sicrwydd y Brifysgol yn barhaus i sicrhau bod y materion hynny'n cael eu gwreiddio o fewn y Brifysgol i sicrhau amgylchedd diogel a chynaliadwy.

Bydd deiliad y swydd yn gweithredu fel prif gynghorydd y Brifysgol ar faterion Iechyd a Diogelwch, amgylcheddol a chynaliadwyedd drwy ddarparu cyngor arbenigol, arweiniad a sicrwydd i'r Uwch Dîm Arwain a phartïon sydd â diddordeb ynghylch risg sefydliadol, cydymffurfio â deddfwriaeth a blaenoriaethau strategol y dyfodol.

Bydd deiliad y swydd yn atebol i'r Cyfarwyddwr Campws a Lle, a bydd yn arwain y tîm Iechyd a Diogelwch, yn goruchwylio archwilio, sicrwydd a monitro perfformiad, yn ogystal â darparu cyfeiriad strategol ar reoli digwyddiadau, cynllunio mewn argyfwng, parhad busnes a gwella parhaus.

## Tasgau Allweddol

**Arwain yn Strategol**

- Datblygu ac arwain Iechyd a Diogelwch a strategaethau amgylcheddol a chynaliadwyedd y Brifysgol i sicrhau cydnawsedd â chynllun strategol a gofynion rheoleiddio'r Brifysgol.
- Darparu cyngor strategol a sicrwydd i Uwch Dimau Arwain, pwyllgorau a llywodraethwyr ar risgiau sy'n dod i'r amlwg, rhwymedigaethau cydymffurfio a datblygiadau yn y sector.
- Sefydlu diwylliant rhagweithiol o ddiogelwch, llesiant a chyfrifoldeb amgylcheddol ar draws y Brifysgol.
- Arwain y gwaith o ddatblygu fframweithiau sefydliadol, polisïau, safonau a threfniadau llywodraethu sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch, yr amgylchedd a chynaliadwyedd.

**Llywodraethu, Risg a Sicrwydd**

- Gweithredu fel arweinydd strategol y Brifysgol ar gyfer iechyd, diogelwch a rheoli risg amgylcheddol.
- Datblygu a chynnal systemau sicrwydd cadarn i alluogi'r Brifysgol i fonitro cydymffurfedd, perfformiad sefydliadol a chysylltiad â risg.
- Arwain trefniadau llywodraethu iechyd a diogelwch y Brifysgol i sicrhau bod dulliau adrodd, uwchgyfeirio a goruchwylio priodol ar waith.
- Goruchwylio a rhoi cyngor yn ystod archwiliadau ac ymchwiliadau, gan sicrhau y caiff canfyddiadau eu trosi'n welliannau sefydliadol strategol.
- Cefnogi cynllunio mewn argyfwng, parhad busnes ac ymateb i ddigwyddiad fel cynrychiolydd Iechyd a Diogelwch y Brifysgol.

**Rheolaeth Reoleiddio a Chydymffurfedd**

- Cynnal goruchwyliaeth strategol o gydymffurfedd â'r holl rwymedigaethau statudol iechyd, diogelwch, amgylcheddol a rhai cysylltiedig.
- Arwain ymgysylltiad â phartïon priodol sydd â diddordeb.
- Sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau, ymchwilio, dysgu a gwella sefydliadol.
- Monitro newidiadau deddfwriaethol ac arferion gorau, gan gynghori'r uwch dîm arwain a rheolwyr ar oblygiadau sefydliadol a chamau gweithredu gofynnol.

**Arweinyddiaeth Amgylcheddol a Chynaliadwyedd**

- Arwain y gwaith o ddatblygu a chyflawni agenda cynaliadwyedd amgylcheddol, ymrwymiadau lleihau carbon ac uchelgeisiau Sero Net y Brifysgol.

- Goruchwylio systemau rheoli amgylcheddol, gofynion adrodd amgylcheddol a dangosyddion perfformiad cynaliadwyedd yn strategol.
- Hyrwyddo mentrau gwella amgylcheddol a chynaliadwyedd sy'n cefnogi nodau'r Brifysgol, cydymffurfedd rheoleiddio ac ymarfer sy'n arwain y sector.

**Rheoli**

- Datblygu gallu'r gweithlu, cynllunio olyniaeth a safonau proffesiynol o fewn y tîm.
- Rheoli cyllidebau, adnoddau, contractau a darparwyr arbenigol allanol ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Campws a Lle i sicrhau bod gwasanaeth effeithiol a gwerth am arian yn cael ei ddarparu.
- Ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Campws a Lle, arwain prosiectau strategol a mentrau newid sefydliadol sy'n ymwneud â diogelwch, iechyd, yr amgylchedd a chynaliadwyedd.
- Arwain a rheoli'r tîm Iechyd a Diogelwch yn effeithiol.

## Nodweddion Arbennig

Mae'n bosib y bydd angen cefnogaeth gyda'r nos, ar benwythnosau neu'r tu hwnt i oriau swyddfa o bryd i'w gilydd. Felly, mae angen agwedd hyblyg tuag at oriau gwaith. Bydd deiliad y swydd yn rhan o'r tîm ymateb 'ar alw' mewn argyfwng.

## Dyletswyddau Cyffredinol

Byddwch yn sicrhau bod systemau a gweithdrefnau rheoli priodol ar waith er mwyn diwallu'ch dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau iechyd a diogelwch a nodir ym mholisi iechyd a diogelwch y Brifysgol. Yn benodol, byddwch yn sicrhau bod asesiadau risg priodol yn cael eu cynnal mewn cysylltiad â pheryglon sylweddol ac yr ymgymerir ag arolygon diogelwch o leiaf unwaith y flwyddyn, ym mhob gweithle dan eich rheolaeth chi.

Cyfrifoldeb y gweithwyr yw rhoi Polisi Cyfle Cyfartal y Brifysgol ar waith o fewn eu maes cyfrifoldeb eu hunain ac yn eu hymddygiad cyffredinol.

Mae gan yr holl staff gyfrifoldeb dros hyrwyddo gofal cwsmer o safon yn eu meysydd cyfrifoldeb eu hunain.

Rhaid i staff fod yn ymwybodol o ymrwymiad y Brifysgol i Gynaliadwyedd.

Rhaid i bob aelod o staff hyrwyddo ymddygiad iach ac iechyd meddwl a llesiant cadarnhaol

Disgwylir i ddeiliaid swyddi gydweithredu â'r broses Adolygu Datblygiad Proffesiynol, gan gymryd rhan wrth osod amcanion er mwyn cynorthwyo gyda monitro perfformiad a datblygiad yr unigolyn.

Byddwch yn asesu anghenion hyfforddiant a datblygiad pob aelod o staff dan eich rheolaeth i sicrhau ei fod yn cael ei digon o gefnogaeth o ran ei gyfrifoldebau yn y gwaith.

Dyletswyddau perthnasol eraill sy'n gymesur â gradd y swydd, a all gael eu neilltuo gan y Rheolwr, mewn cytundeb â deiliad y swydd. Ni ddylid gwrthod cytundeb o'r fath yn afresymol.

Mae’r cyfrifoldebau allweddol sydd wedi'u cynnwys yn y swydd ddisgrifiad hon yn rhai nodweddiadol; nid ydynt yn gynhwysfawr. Gellir addasu dyletswyddau a chyfrifoldebau mewn trafodaeth â deiliad y swydd.

Disgwylir i'r holl ddeiliaid swyddi yn y Gyfarwyddiaeth allu cynnig cymorth ar draws pob maes, y tu hwnt i'w tîm uniongyrchol, ar gais y Cyfarwyddwr ac yn gymesur â'u sgiliau, eu gwybodaeth a’u profiad.

## Adolygu

Mae hwn yn ddisgrifiad o'r swydd adeg ei chyhoeddi. Mae'n arfer gan y Brifysgol o bryd i'w gilydd i adolygu a diweddaru disgrifiadau swydd er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu natur gyfredol y swydd a gofynion y Brifysgol yn gywir, ac i ymgorffori newidiadau rhesymol pan fo angen, mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd.

# Manyleb Person

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

**Teitl y Swydd:** **Bennaeth Iechyd, Diogelwch a Chydymffurfedd**

Er mwyn cael eich rhoi ar y rhestr fer, mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn diwallu pob un o'r meini prawf hanfodol a hynny o'r meini prawf dymunol ag sy'n bosibl. Pan fydd gennym nifer fawr o geisiadau sy'n diwallu'r holl feini prawf hanfodol, byddwn wedyn yn llunio'r rhestr fer gan ddefnyddio'r meini prawf dymunol.

## Meini Prawf Dethol

| Priodoleddau | | Eitem | Meini Prawf Perthnasol | Dull adnabod Dull | Pwysigrwydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Sgiliau a Galluoedd | 1.1 | Sgiliau cadarn o ran cynllunio strategol a datblygu sefydliadol sy'n gysylltiedig ag Iechyd a Diogelwch. | Ff, C | H |
| | | 1.2 | Y gallu i ddadansoddi a dehongli gwybodaeth allweddol i sicrhau bod systemau a phrosesau addas ar waith i leihau'r risg i'r Brifysgol. | Ff, C | H |
| | | 1.3 | Y gallu i reoli llwyth gwaith cymhleth, blaenoriaethu gweithgareddau i fodloni terfynau amser yn ogystal â gweithio mewn sefyllfaoedd dan bwysau mawr. | Ff, C | H |
| | | 1.4 | Y gallu i feithrin cysylltiadau a phartneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol, yn ogystal ag arwain drwy ddylanwad, partneriaeth a chydweithio. | Ff, C | H |
| | | 1.5 | Y gallu i arwain a rheoli'r tîm Iechyd a Diogelwch yn effeithiol. | Ff, C | H |
| 2 | Gwybodaeth Gyffredinol ac Arbenigol | 2.1 | Gwybodaeth fanwl a chyfredol am Iechyd a Diogelwch, deddfwriaeth amgylcheddol a chynaliadwyedd, polisïau a gweithdrefnau sy'n berthnasol i sefydliadau addysg uwch. | Ff, C | H |
| | | 2.2 | Gwybodaeth am systemau rheoli iechyd a diogelwch a safonau cydnabyddedig. | Ff, C | H |
| | | 2.3 | Gwybodaeth am gynaliadwyedd, lleihau carbon, strategaethau Sero Net a gofynion adrodd amgylcheddol. | Ff, C | H |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3 | Addysg a Hyfforddiant | 3.1 | Addysg hyd at lefel gradd neu gyfwerth. | Ff, C, T | H |
| | | 3.2 | Cymhwyster arwain/rheoli a/neu brofiad arwain/rheoli sylweddol. | Ff, C, T | H |
| | | 3.3 | Ardystiad NEBOSH neu'n barod i weithio tuag at ei gyflawni. | Ff, C, T | H |
| | | 3.4 | Aelod siartredig o IOSH. | Ff, C | D |
| | | 3.5 | Datblygiad proffesiynol parhaus amlwg. | Ff, C | H |
| 4 | Profiad Perthnasol | 4.1 | Profiad o ymdrin â sefyllfaoedd cymhleth a sensitif. | Ff, C | H |
| | | 4.2 | Profiad o gefnogi newid strategol a chynnydd parhaus o ran darpariaeth iechyd, diogelwch a llesiant. | Ff, C | H |
| | | 4.3 | Profiad o arwain pobl eraill a rheoli effeithiol. | Ff, C | H |
| | | 4.4 | Profiad o weithio o fewn amgylchedd Iechyd a Diogelwch, yn ddelfrydol o fewn addysg bellach neu uwch. | Ff, C | H |
| | | 4.5 | Profiad o weithio o fewn y maes amgylcheddol a chynaliadwyedd, yn ddelfrydol o fewn addysg bellach neu uwch. | Ff, C | D |
| 5 | Gofynion Arbennig | 5.1 | Y gallu i weithio'n hyblyg gan gynnwys ar benwythnosau a gyda'r nosau a bod 'ar alw' rhag ofn y bydd achos brys. | Ff, C | H |
| | | 5.2 | Mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn ddymunol. Fodd bynnag, mae dangos parch at dreftadaeth ddiwylliannol Cymru yn hanfodol. | Ff, C | D |
| **Dyddiad Adolygu** | | | Gorffennaf 2026 | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Allwedd** | **Dull Adnabod** | **Ff** | Ffurflen Gais |
| | | **C** | Cyfweliad |
| | | **P** | Prawf |
| | | **T** | Copi o Dystysgrifau |
| | | **Rh** | Cyflwyniad |
| | | **G** | Asesiad Grŵp |
| | **Pwysigrwydd** | **H** | Hanfodol |
| | | **D** | Dymunol |


Ein Dyfodol. Rhagoriaeth. Cliciwch yma.
Ein Dyfodol. Cynhwysiad. Cliciwch yma.
Ein Dyfodol. Cydweithio. Cliciwch yma.
Ein Dyfodol. Trawsnewidiad. Cliciwch yma.
Ein Dyfodol. Cynaliadwyedd. Cliciwch yma.